O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 444 (Cy. 140)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Osgoi Aberteifi, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2016

Gwnaed	*21 Mawrth 2016*
Yn dod i rym	*23 Mawrth 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Mawrth 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Osgoi Aberteifi, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2016.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(2)**;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron sy'n aelod o'r lluoedd arbennig-

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "lluoedd arbennig" *("special forces")* yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y

Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o gefnffordd yr A487 a elwir yn Ffordd Osgoi Aberteifi yn Sir Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 1,114 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r U5005 Heol Cae Morgan, Aberteifi i bwynt 77 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 21 Mawrth 2016

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22), Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) 1984 p. 27; amnewidwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) (mae'r amnewidiadau yn cael effaith drwy O.S. 2013/1682 yn ddarostyngedig i'r darpariaethau arbed a throsiannol a bennir yn adran 15 o Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac Atodlen 8 iddi ac adran 50(5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20)).